advocacy
The Golden Thread Programme
Enabling views, wishes and feelings

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# GWEITHREDU'R COD YMARFER EIRIOLAETH

## OFFERYN HUNANASESU I DDARPARWYR

**Prosiect  Eiriolaeth Edau Euraidd – a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru**

Medi 2016

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

## Amcan

**Diben yr Offeryn Hunanasesu hwn yw canfod parodrwydd sefydliadol i gydymffurfio â Chod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) a'i fwriad strategol.** Mae'r Offeryn Hunanasesu ei hun wedi'i strwythuro mewn pedair adran i adlewyrchu camau gwahanol y cylch comisiynu: dadansoddi, cynllunio, gwneud, adolygu[1]. Dylid nodi nad offeryn archwilio y gellid ei ddefnyddio i wneud asesiad 'rheoli perfformiad' yw hwn, ond yn hytrach dylai helpu'r Prosiect Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) i'ch cefnogi i gyflawni'r dyheadau'r Ddeddf.

Hoffem danlinellu'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae'r offeryn hwn i chi ei ddefnyddio mewn modd ailadroddol. Gellir ei addasu a'i ailystyried wrth i amser fynd heibio
- Rydym yn awgrymu eich bod yn ei gwblhau mewn cydweithrediad â'ch tîm a gyda phartneriaid lle bo hynny'n bosibl
- Nid yw'r offeryn wedi'i gynllunio i'ch holi am ffeithiau a ffigurau sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth – rydym eisiau eich barn broffesiynol ar y datganiadau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn yr offeryn.

### Ynghylch y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd

Ariannwyd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd gan Lywodraeth Cymru am 3 blynedd i gefnogi ac i redeg ochr yn ochr â gweithredu Rhan 10 (Eiriolaeth) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Prif amcanion y rhaglen yw:

- Cefnogi comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol trwy ddull cynaliadwy a strategol.
- Gwella argaeledd gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ar draws Cymru
- Gwella lles unigolion trwy eiriolaeth a rhoi llais cryfach iddynt

### Bydd y rhaglen genedlaethol hon yn:

- Cefnogi timau rheoli/comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol strategol a gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddeall eu cyfrifoldebau o ran eiriolaeth o dan y Ddeddf.
- Cefnogi datblygiad modelau cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaeth eiriolaeth.
- Gweithio gyda darparwyr gwasanaeth presennol a newydd i sicrhau eu bod nhw'n barod i dendro ar gyfer prosesau comisiynu eiriolaeth statudol.
- Creu fframwaith ar gyfer cydweithio rhwng cyrff statudol a darparwyr gwasanaethau wrth ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon i gefnogi canlyniadau lles.
- Gweithio gyda grwpiau cynrychiadol o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr potensial i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth yn ei holl ffurfiau, wrth arfer rheolaeth dros eu canlyniadau lles
- Hyrwyddo dulliau cadarnhaol tuag at les a chefnogi gwelliannau i ddiogelu drwy roi llais cryfach i bobl â nodweddion gwarchodedig.

---

[1] Mae'n adeiladu ar waith y SCIE a'r IPC yn Lloegr a wnaeth gynhyrchu offeryn hunanasesu tebyg ar gyfer eiriolaeth annibynnol - gweler: http://www.scie.org.uk/care-act-2014/advocacy-services/commissioning-independent-advocacy/tasks/self-assessment-tool/self-assessment-tool.pdf

## Canllaw i asesu

Mae yna heriau wrth sicrhau bod yna gysondeb sgorio mewn ymarferion hunanasesu. Rydym wedi ceisio darparu strwythur a fydd yn sicrhau dull safonol o sgorio cyn belled ag y bo modd. Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn disgrifio'r system asesu.

**Mae'n bwysig nodi, pryd bynnag y byddwch yn gwneud asesiad o fewn yr Offeryn, rydych yn barnu eich parodrwydd i gydymffurfio â chyfres o ddatganiadau arfer da o ran comisiynu eiriolaeth annibynnol.**

Unwaith y byddwch wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, byddwch yn dewis pa un o'r pedair lefel ganlynol sy’n cyfateb orau i’ch asesiad, ac yn priodoli sgôr o fewn yr ystod sydd ar gael ar gyfer y lefel hwnnw fel y gwelir isod:

- Gwyrdd = tystiolaeth dda i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da
- Melyn = tystiolaeth ddigonol i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da
- Ambr = tystiolaeth annigonol i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da
- Coch = tystiolaeth wael i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da

Gellir disgrifio’r ddau uchaf o’r rhain fel rhai 'uwchben y llinell', ac mae'r ddau arall yn eistedd islaw, felly, os ydych yn asesu eich hunain fel ambr neu goch mae'n amlwg bod yna lawer mwy o waith i'w wneud er mwyn cydymffurfio â'r datganiadau arfer da nag ar gyfer asesiadau yn yr ystodau melyn neu wyrdd. O fewn pob un o'r ystodau hyn hefyd mae yna raddfa sy'n caniatáu i chi ddweud wrthym ble yn yr ystod honno ydych yn meddwl ydych chi (gweler tabl 1). Ar gyfer pob datganiad arfer da, dylid rhoi sgôr yn un o'r blychau.

Tabl 1: Canllaw sgorio hunanasesu i ddarparwyr

| ASESIAD | YR YSTOD SGÔR Y GELLIR EI ROI | BETH MAE’R SGÔR HON YN EI OLYGU? |
|---|---|---|
| **Da** Gwyrdd | Rhwng 76 a 100 | Mae gennych dystiolaeth **dda** i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |
| **Digonol** Melyn | Rhwng 51 a 75 | Mae gennych dystiolaeth **ddigonol** i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |
| **Annigonol** Ambr | Rhwng 26 a 50 | Mae gennych dystiolaeth **annigonol** i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |
| **Gwael** Coch | Rhwng 1 a 25 | Mae gennych dystiolaeth **wael** i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |

## Cwblhau’r offeryn hunanasesu

### Pwy ddylai wneud yr asesiadau?

Mae hyn i fyny i chi i raddau helaeth iawn, ac efallai y bydd yn berthnasol i unrhyw nifer o wahanol bobl i gwblhau'r hunanasesiad o fewn sefydliad.

### Pwy fydd yn gweld yr asesiadau sydd wedi cael eu gwneud?

Yn ychwanegol at y tîm GTAP, bydd fersiwn ddienw o'ch hunanasesiad yn cael ei rhannu gyda gwerthuswyr annibynnol y prosiect GTAP o Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni fydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei rhannu.

Er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder, mae'n bwysig i ymatebwyr ddeall nad yw Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru yn darparu gwasanaethau eiriolaeth rheng flaen o unrhyw fath. Mae'n gweithio’n strategol i gefnogi gweithrediad a dyheadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn unig. Y nod yw i'r wybodaeth a gesglir o'r arolwg hwn gefnogi'r broses o gomisiynu gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac nid ar gyfer budd masnachol.

### Erbyn pryd sydd angen i ni gwblhau’r offeryn hunanasesu?

Os yn bosib, hoffem gael yr hunanasesiad yn ôl erbyn dydd Gwener 9 Rhagfyr 2016.

### I ble sydd angen dychwelyd yr hunanasesiad

Llenwch y ddogfen hon a’i dychwelyd i’r tîm GTAP trwy e-bost:

**goldenthreadadvocacy@agecymru.org.uk**.

Nid yw’r cwestiynau proffil yn gofyn i chi am eich enw a’ch manylion cyswllt, ond gallwch wneud hynny os ydych yn dymuno i GTAP gysylltu â chi.

# YR OFFERYN HUNANASESU

| **DATGANIADAU ARFER DA** | | **Eich asesiad o ba un ai a oes gennych dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tystiolaeth Wael** 1-25 | **Tystiolaeth Annigonol** 26-50 | **Tystiolaeth Ddigonol** 51-75 | **Tystiolaeth Dda** 76-100 |
| **1** | **DADANSODDI –** "Fel darparwyr..." | | | | |
| 1a | ...rydym yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth i'n helpu ni a chomisiynwyr i ddeall y galw presennol a'r galw yn y dyfodol am eiriolaeth o dan y ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | | | | |
| 1b | ...mae gennym system systematig o gyd-gynhyrchu ein dadansoddiad gyda'r awdurdod lleol (neu staff sector statudol eraill) sy'n cynllunio ac yn comisiynu'r gwasanaethau hyn. | | | | |
| 1c | ...rydym yn gwybod pa adnoddau sydd gennym ar gael i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth a phroffil defnyddwyr gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o fod angen cymorth. | | | | |
| 1d | ...gallwn ragamcanu ein hymrwymiadau ariannol yn y dyfodol yn hyderus. | | | | |
| 1e | ...rydym yn dadansoddi ac yn mesur perfformiad eiriolaeth yn erbyn safonau cytunedig, gan ddangos arfer da. | | | | |
| **2** | **CYNLLUNIO** – "Fel darparwyr..." | | | | |
| 2a | ...rydym yn ymwybodol o, ac yn deall strategaethau comisiynu a bwriadau comisiynwyr er mwyn cwrdd â'u dyletswyddau eiriolaeth o dan y ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | | | | |
| 2b | ...rydym yn ymroi mewn deialog barhaus â rhanddeiliaid a chomisiynwyr allweddol er mwyn adeiladu consensws ar oblygiadau eu cynlluniau yn yr ardal leol. | | | | |
| 2c | ...mae gennym ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n galluogi'r bobl rydym yn eu cefnogi i gyfrannu at gynllunio ein gwasanaethau ac yn uchafu rheolaeth dros wasanaethau unwaith y maent wedi'u sefydlu. | | | | |

| DATGANIADAU ARFER DA | | Eich asesiad o ba un ai a oes gennych dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tystiolaeth Wael** 1-25 | **Tystiolaeth Annigonol** 26-50 | **Tystiolaeth Ddigonol** 51-75 | **Tystiolaeth Dda** 76-100 |
| **3** | **GWNEUD** – "Fel darparwyr..." | | | | |
| 3a | ...rydym yn deall ac yn gallu arddangos sut mae ein gwasanaethau'n cwrdd ag angen lleol ac yn cyflawni yn erbyn cynlluniau comisiynu. | | | | |
| 3b | ...rydym wedi datblygu gwasanaethau sy'n hyblyg, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir ynghylch y gofynion ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. | | | | |
| 3c | ...rydym yn cyflawni ein gwasanaethau eiriolaeth yn erbyn safonau cytunedig. | | | | |
| 3d | ...rydym yn barod ar gyfer tendro. | | | | |
| **4** | **ADOLYGU** – "Fel darparwyr..." | | | | |
| 4a | ...rydym yn casglu ynghyd data perthnasol ar waith a chanlyniadau ein gwasanaethau er mwyn beirniadu a ydynt yn arddangos cost-effeithiolrwydd ac effaith. | | | | |
| 4b | ...rydym yn darparu astudiaethau achos enghraifft i gomisiynwyr sy'n dangos effaith ein gwasanaeth, i gynorthwyo comisiynu yn y dyfodol. | | | | |
| 4c | ...mae gennym brosesau monitro cytundebau ar waith sy'n canolbwyntio ar ddatblygu deialog cadarnhaol a chydweithredol â chomisiynwyr er mwyn gwella perfformiad. | | | | |

Defnyddiwch y blychau isod i gofnodi unrhyw gryfderau allweddol a/neu feysydd sydd angen eu datblygu ar ôl i chi gwblhau’r ymarfer hunanasesu uchod.

| **Cryfderau allweddol** (asesiadau gwyrdd neu felyn)<br>Nodwch i ba ddatganiad arfer da mae eich cryfder allweddol yn cyfateb iddo (defnyddiwch y rhestr wedi’i rhifo yn yr offeryn hunanasesu uchod). | **Meysydd i’w datblygu** (asesiadau ambr neu goch)<br>Nodwch i ba ddatganiad arfer da mae eich maes i’w ddatblygu yn cyfateb iddo (defnyddiwch y rhestr wedi’i rhifo yn yr offeryn hunanasesu uchod). |
|---|---|
| | |

**Ymhle ydych chi'n gweithio?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | ☐ | Conwy | ☐ | Sir Fynwy | ☐ | Abertawe | ☐ |
| Pen-y-bont ar Ogwr | ☐ | Sir Ddinbych | ☐ | Castell-nedd Port Talbot | ☐ | Torfaen | ☐ |
| Caerffili | ☐ | Sir y Fflint | ☐ | Casnewydd | ☐ | Bro Morgannwg | ☐ |
| Caerdydd | ☐ | Gwynedd | ☐ | Sir Benfro | ☐ | Wrecsam | ☐ |
| Sir Gaerfyrddin | ☐ | Ynys Môn | ☐ | Powys | ☐ | Cymru | ☐ |
| Ceredigion | ☐ | Merthyr Tudful | ☐ | Rhondda Cynon Taf | ☐ | Arall: ______________ | ☐ |

**Ym mha sector(au) ydych chi'n darparu eiriolaeth?**

- Awdurdod Lleol ☐
- Iechyd ☐
- Arall: ________________ ☐

**Ydych chi wedi tendro yn ffurfiol i awdurdod lleol a/neu fwrdd iechyd yn y gorffennol?**

- Awdurdod Lleol ☐
- Bwrdd Iechyd ☐
- Y ddau ☐

**I bwy ydych yn darparu eiriolaeth?**

- Plant ☐
- Oedolion ☐
- Y ddau ☐

**Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am waith GTAP a sut allai'r prosiect eich helpu chi yn eich gwaith nodwch eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn.**

Enw ________________________________

E-bost ________________________________

Rhif ffôn ________________________________

**Paratowyd yr Offeryn Hunanasesu gan:**
Mark Llewellyn
**Yr Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
Prifysgol De Cymru, Campws Glyntaf Isaf, Pontypridd, CF37 1DL
wihsc.southwales.ac.uk · wihsc@southwales.ac.uk · 01443 483070

© Age Cymru 2016